



Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales

Cynllun Strategol 2018.

Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru
Llais y Diwydiant Bwyd a Diod



Ein cenhadaeth.

Nod y bwrdd yw ymgysylltu'n barhaus gyda busnesau bwyd a diod Cymru, gan sicrhau bod ei waith yn parhau â ffocws ar dyfu ac ychwanegu gwerth. Wrth i ni gyrraedd hanner ffordd drwy ein cynllun gweithredu, ein bwriad yw adnewyddu ein gweithgareddau er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol ac yn ddigon hyblyg i ymateb i heriau a chyfleoedd newydd mewn tirwedd sy'n esblygu'n barhaus. Yn ddiweddar cynhaliom ni ddiwrnod strategaeth i adolygu llwyddiant ein gwaith hyd yma a chynllunio'r cam nesaf yn nhwf diwydiant bwyd a diod Cymru.



Y strategaeth.

Diben y Bwrdd

Gweithio mewn partneriaeth gyda diwydiant a'r llywodraeth i helpu i dyfu, hyrwyddo a chyfoethogi diwydiant bwyd a diod Cymru wrth iddo ymdrechu i gyrraedd targed twf o 30% - neu £7bn mewn gwerthiant - erbyn y flwyddyn 2020.

Byddwn yn cyflawni hyn drwy wneud y canlynol:

- Gweithio mewn partneriaeth i gefnogi datblygiad y farchnad, hybu twf a diogelu ein hadnoddau naturiol
- Cefnogi datblygiad gweithlu medrus a diwydiant arloesol gyda'r cynhyrchion a'r prosesau diweddaraf
- Gweithio at y targedau llesiant dan egwyddorion datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Bod yn rhan effeithiol o ddiwydiant a chefnogi'r llywodraeth drwy ychwanegu gwir werth
- Defnyddio tystiolaeth i lywio ein meddwl a'n penderfyniadau
- Helpu i wella canfyddiad ac ymwybyddiaeth defnyddwyr o fwyd a diod o Gymru.

Strategaeth y Dyfodol – I ble ydym ni'n mynd?

Mae'r cynllun gweithredu 'Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020' bellach wedi cyrraedd hanner ffordd ac mae llawer o'r tirlun wedi newid ers iddo gael ei lansio. Nid yn unig ydym ni'n cynnal adolygiad o'r cynllun ar ei hanner i sicrhau ei fod yn addas i'r diben ond mae angen i ni edrych y tu hwnt i 2020 wrth i ni gynllunio ar gyfer y dyfodol tymor hir.

Gyda hynny mewn golwg bydd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru (BDBDC) yn datblygu cynigion ac argymhellion ar gyfer dyfodol twf y Diwydiant. Byddwn yn ymgynghori'n eang gyda'r diwydiant a rhanddeiliaid ar draws y sector bwyd a diod i sicrhau bod cynifer o leisiau â phosibl yn cael eu clywed.

Fel bwrdd, mae angen i ni barhau i ganolbwyntio ar y materion hynny fydd yn cael yr effaith fwyaf ar y sector bwyd a diod yng Nghymru. Cadwch olwg am wybodaeth bellach am hyn yn ystod 2018 neu cysylltwch yn uniongyrchol â Chair.FDWIB@Wales.gov.uk

Ffrydiau gwaith.

Pwrpas y bwrdd

Drwy ein gwaith cynnar aethom ati ar y dechrau i nodi pedair ffrwd gwaith i'w datblygu sef:

- Cwsmeriaid a Marchnadoedd
- Pobl a Sgiliau
- Busnes a Buddsoddi
- Cyfathrebu ac ymgysylltu

Yn ddiweddarach cafodd y ffrwd waith Cyfathrebu ac Ymgysylltu ei hymgorffori yn y tair ffrwd gwaith arall.

Fel rhan o'n strategaeth, aethom ati i ystyried datblygiad y tair ffrwd yn y dyfodol, gan asesu'r weledigaeth, yr amcanion a'r dull cyflenwi.

Ffrwd Gwaith Busnes a Buddsoddi

AMCAN A FWRIEDIR Bod buddsoddiad ar gael i gwrdd â photensial busnes bwyd a diod	
Amcanion allweddol	Dull cyflenwi
Sefydlu data sylfaenol ar gyfer lefelau o fuddsoddiad masnachol mewn busnesau bwyd a diod yng Nghymru.	Bydd y bwrdd yn ymchwilio i ganfod pwy sy'n buddsoddi a faint – mae'n debygol y bydd angen comisiwn ymchwil ar gyfer hyn.
Rhoi rhaglen ar waith i wella lefelau o ddealltwriaeth am wahanol opsiynau buddsoddi / ffynonellau cyllido.	Caiff hyn ei gyflenwi drwy waith dilynol o gynhadledd cyllid 2016 y bwrdd.
Ymchwilio i gyfleoedd buddsoddi e.e. cronfa twf cyflymedig.	Y bwrdd i werthuso'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd drwy/neu gyda chymorth Llywodraeth Cymru a chymharu â chymorth cynllunio busnes y sector preifat a sectorau busnes bwyd gwledydd eraill (e.e. Gweriniaeth Iwerddon).
Ymchwilio i gyfleoedd buddsoddi e.e. cronfa twf cyflymedig.	Bydd y bwrdd yn ystyried y cynnig busnes cyflawn gan Lywodraeth Cymru a'r cysylltiadau drwy ei ffrydiau gwaith.
Ymchwilio a hyrwyddo'r cynnig masnachol sy'n gysylltiedig â Chyllid Cymru.	Bydd y bwrdd yn gwerthuso'r cynnig ac yn asesu a yw'n gweithio i'r diwydiant.
Cwmpasu, datblygu a gweithredu rhaglen beilot "Paratoi i Fuddsoddi".	Cyflenwi'r cynllun a ddatblygwyd o ganlyniad i gynhadledd cyllid y bwrdd ym mis Tachwedd 2016.

Ffrwd Gwaith Pobl a Sgiliau

AMCAN A FWRIEDIR Bod anghenion sgiliau gwneuthurwyr bwyd a diod yng Nghymru'n cael eu diwallu erbyn 2025	
Amcanion allweddol	Dull cyflenwi
Mapio'n glir y ddarpariaeth gyfredol a gofynion rhanbarthol.	Datblygu strategaeth benodol ar gyfer sgiliau bwyd a diod a chyflogadwyedd erbyn 2018.
Diogelu dyfodol y diwydiant wrth i Brexit ddatblygu.	Cyflenwi dwy gynhadledd sgiliau. Gweithio gydag a thrwy fentrau'r Llywodraeth ynghylch cynlluniau cyflogadwyedd. Gweithio gyda diwydiant i ddeall ac ymdrin â materion yn ymwneud â sgiliau.
Datblygu cyfleoedd i wella sgiliau yn y gweithle.	Gweithio gyda chyflogwyr i'w cynorthwyo i wneud y defnydd gorau o raglenni prentisiaeth, cyflenwi a datblygu diwylliant o welliant parhaus (defnyddio systemau darbodus ac ati).
Annog cynllunio olyniaeth.	Bydd Cywain a Phrosiect Helix FIW yn cefnogi datrysiadau ymarferol i gynllunio olyniaeth yn y diwydiant.
Defnyddio dulliau arloesol ac ymarfer gorau i ysbrydoli gweithlu newydd drwy addysg gynradd ac uwchradd.	Cynyddu ymgysylltu diwydiant ag ysgolion drwy BITC, yr agenda STEM a SHEP. Datblygu agwedd ysgol gyfan at fwyd mewn ysgolion gan ddefnyddio cynllun Bwyd am Oes y Gymdeithas Pridd.
Archwilio a dysgu gan sectorau eraill e.e. yr ymarfer recriwtio diweddar yn y GIG fel patrwm.	Cymhwysu ymarfer gorau drwy archwilio'r tu hwnt i ffiniau'r sector bwyd a diod a datblygu datrysiadau arloesol. Bydd hyn yn cael ei ysgogi a'i gyflenwi drwy'r cynadleddau sgiliau a datblygu strategaeth yn ogystal â Cywain a Cyswllt Sgiliau Cymru.
Parhau i gefnogi partneriaethau sgiliau diwydiant.	Bydd ysgrifenyddiaeth y Bwrdd yn mynychu'r holl bartneriaethau sgiliau diwydiant a gweithredu fel cyfrwng.
Lansio rhaglenni newydd wedi'u cynllunio gan ddiwydiant.	Cywain, Cyswllt Sgiliau Cymru a Phrosiect Helix FIW.
Gweithio gyda phartneriaid i ysbrydoli ac ail-sgilio'r gweithlu a chynyddu'r llif o dalent i feysydd gwyddoniaeth a pheirianeg bwyd gan gynnwys mewn sefyllfaoedd o afreidrwydd helaeth.	Gweithio mewn partneriaeth gyda chyrrff datblygu cymunedol, E&I, Addysg Uwch ac Addysg Bellach i ddatblygu 'rhaglenni trosi' sy'n sefydlu gweithdrefn i godi sgiliau yn y diwydiant ac 'achub ac ailhyfforddi' unigolion o ddiwydiannau eraill mewn achosion o afreidrwydd.

Ffrwd Gwaith Cwsmeriaid a Marchnadoedd

AMCAN A FWRIEDIR Diogelir marchnadoedd presennol a manteisir ar farchnadoedd sy'n ymddangos	
Amcanion allweddol	Dull cyflenwi
Manteisio ar gyfleoedd cynhyrchwyr mawr.	Codi ymwybyddiaeth mewn perthynas â tharddiad.
Datblygu cyfeiriadur o ofynion cyflenwi.	Cydweddu cyflenwyr a phrynwyr, (nid ar gyfer manwerthu'n unig ond ar draws y gadwyn gyflenwi).
Rhagweld marchnadoedd a thueddiadau'r dyfodol.	Ymchwilio marchnadoedd sy'n ymddangos. Mesur a monitro Ansicrwydd Bwyd/Tlodi Bwyd.
Manteisio ar gyfleoedd Brexit h.y. amnewid mewnforion.	Ymchwilio i fanylion am fewnforion bwyd a diod gan gynnwys cynhwysion. Datblygu 'cyfeiriadur cyflenwyr'.
Ymgysylltu â manwerthwyr a gwasanaethau bwyd i ddeall y risg i'r gadwyn gyflenwi yn sgil Brexit a chydweddu â chyflenwad Cymru.	Cydweithio gyda Chonsortium Adwerthu Cymru a datblygu cyfeiriadur cynhyrchwyr drwy Arloesi Bwyd Cymru.
Mynegi pam fod bwyd a diod Cymru yn eithriadol fesul sector (brandio drwyddi draw).	Siarad a chynrychioli'r bwrdd mewn digwyddiadau allweddol/ar y cyfryngau er enghraifft BlasCymru/TasteWales, hyrwyddo ansawdd a tharddiad bwyd a diod o Gymru.
Manteisio ar gyfleoedd twristiaeth bwyd-amaeth.	Parhau i gyflenwi'r cynllun gweithredu twristiaeth bwyd a diod mewn partneriaeth â Croeso Cymru.